

Galwad

Gweddïau o Addoliad a Chyffes

Gweddïau o Addoliad a Chyffes

Dduw sy'n galw ac yn arfogi,
Ceisiwn di, nid oherwydd yr hyn y gallwn ei wneud i ti,
ond mewn ymateb i'th gariad anhygoel yn ein bywydau.
Dathlwn dy gariad hollgynhwysol a'r bobl sydd wedi dy
wneud di'n hysbys i ni.

Cydnabyddwn fod dy Ysbryd wedi gweithio trwy bobl
ddirifedi i wneud dy iachawdwriaeth yn hysbys i ni a
chymernw ennid i gydnabod hyn.

Molwn di am gariad Duw a wnaed yn hysbys yn Iesu, yr
Un sy'n galw cymaint o wahanol bobl, mewn cymaint o
amrywiol ffyrdd ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Agorwn ein hunain i'th gariad a'th arweiniad fel y gallwn
ymateb i'th alwad a helpu eraill i adnabod dy gariad.
Amen.

Gweddïau o Gyffes

Dduw cariad a thrugaredd anferthol,
Maddau inni pan fyddwn yn ceisio osgoi dy ddilyn,
maddau i ni pan fyddwn yn anwybyddu dy alwad yn ein
bywydau,
maddau inni pan fydd ein prysurdeb yn boddi dy lef ddistaw
fain
a ninnau'n ceisio mynd ein ffordd ein hunain.

Maddau inni pan fydd ein gweithredoedd yn atal eraill
rhag ymateb i alwad Duw yn eu bywydau.
Amen.

Sicrwydd o Faddeuant

Nid yw cariad Duw tuag atoch yn dibynnu ar yr hyn rydych yn ei wneud.
Nid yw cariad Duw tuag atoch yn lleihau
pan fyddwch chi'n colli ffocws ac yn colli'ch ffordd.

Mae cariad Duw tuag atoch yn parhau fel y bu bob amser ac y bydd bob amser.
Maddeuir ichi a'ch dal yn annwyl gan freichiau cariadus Duw.
Diolch a fo i Dduw. Amen